



YSGOL SYR THOMAS JONES

PENTREFELIN, AMLWCH, YNYS MÔN LL68 9TH

PENNAETH: MR R. AARON BAYLEY

DIRPRWY: DR GERAINT JONES

PEN. CYN: MRS MEFYS JONES-EDWARDS, MRS ELERI FOULKES, MRS MANDY ROBERTS

RHEOLWR BUSNES: MRS MENNA OWEN

Dydd Mercher yr 17eg o Fehefin 2020

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

CYNLLUN DYCHWELYD AC AILYMAFAEL Â'R DYSGU YSTJ

Yn dilyn cyfnod ansicr iawn i bawb, yn unol â'n haddewid, rydym yn falch o gyhoeddi cynlluniau Ysgol Syr Thomas Jones i groesawu'r holl ddysgwyr yn ôl i "Ddod i'r ysgol; Dal ati i ddysgu a Pharatoi am yr haf a mis Medi." Bydd drysau YSTJ yn agor eto o ddydd Llun y 29ain o Fehefin **am gyfnodau penodol** am weddill tymor yr haf. Fe welwch yn y cynllun ein bod yn cynllunio i ddarparu cyfle i bob dysgwr fynychu'n rheolaidd ar ddyddiau penodol fesul eu grwpiau blwyddyn. (Gweler y Pecyn i Rieni am wybodaeth pellach)

DIOGELWCH

Deallwn y bydd rhai disgyblion a rhieni yn bryderus am ddychwelyd i'r ysgol, ond gallwn eich sicrhau fod gweithdrefnau manwl a thrylwyr iawn yn eu lle er mwyn creu'r amodau mwyaf diogel a phosib i bawb. Mae'r canllawiau cenedlaethol yn datgan nad oes rheidrydd i chi yrru eich plentyn i'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, o ddychwelyd i amodau wedi eu rheoli'n dynn gyda symudiad plant a staff wedi ei leihau yn sylweddol, tybiwn y bydd yn gyfle gwych i'r dysgwyr ymgyswrtu â threfn sy'n gyfuniad o ddysgu adref wedi ei gefnogi gan sesiynau wyneb yn wyneb yn yr ysgol. Mae'n edrych yn debygol iawn mai hyn fydd y patrwm am beth amser i'r dyfodol. Bydd y disgyblion yn cael eu gosod mewn grwpiau bach gyda'u cyfoedion ac ni fyddent yn symud o gwmpas yr ysgol.

DYDDIAU AC AMSEROEDD

Er mwyn cychwyn yr ail integreiddio yn raddol a phwylllog rydym wedi cynllunio model hyblyg o Fehefin 29ain ymlaen. Mi fydd y diwrnod ysgol wedi'i gwtogi i rhwng 9:00am ac 1:00pm. Gweler y Pecyn i Rieni am wybodaeth manwl. Yn y Pecyn i Rieni fe welwch hefyd wybodaeth manwl am y rota ar gyfer pob grŵp oedran / blwyddyn am y 4 wythnos nesaf. Sylwer fod y patrwm yn amrywio rhyw ychydig o wythnos i wythnos. Mae ein model yn un hyblyg ac fel yr ydych yn gwybod amdanom yn barod byddwn yn adolygu'r trefniadau'n gyson ac yn addasu fel yr angen. Mi fydd adolygiad ffurfiol yn digwydd ar ddiwedd wythnos 2.

TEITHIO

Mae'r canllawiau cenedlaethol yn awgrymu'n gryf, lle fo hynny'n bosib, y dylai rhieni gludo eu plant eu hunain i'r ysgol a'u casglu ar ddiwedd y dydd gan osgoi rhannu a'r defnydd o drafnidiaeth cyhoeddus. Os ydych yn bwriadu gwneud hynny mi fydd gennym Gynllun Rheoli Traffig er mwyn cadw trefn ar yr holl symudiadau. (Gwelwch yr holiadur er mwyn gadael i ni wybod eich bwriadau i'n cefnogi i gynllunio). Os yw eich plentyn yn gymwys i deithio ar fws ysgol fel arfer, fe fydd lle i nifer penodol gael cludiant (oherwydd rheolau ymbellhau) ac fe ddylid nodi cais am hyn yn yr holiadur cofrestru. Y Cyngor Sir sydd yn gyfrifol am drefnu'r cludiant bysiau a byddwn yn cydweithio'n agos â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn yr wybodaeth mwyaf cyfredol.

DISGWYLIADAU

Gan y byddwn yn gweithredu o dan amodau sydd wedi eu rheoli yn ofalus iawn, fe fyddwn yn mynnu ymddygiad ardderchog gan bob disgybl drwy'r amser. Byddwn yn disgwyl i BOB dysgwr barchu rheolau pellter cymdeithasol ac i ddilyn cyfarwyddiadau staff BOB amser. Os na fydd disgybl yn cydymffurfio'n llawn â'n disgwyliadau yn dilyn 1 rhybudd byddwn yn gofyn i chi eu casglu o'r ysgol. Yn yr un modd, os yw plentyn yn arddangos symptomau yn ystod y dydd bydd disgwyl i chi fod ar gael i'w casglu ar unwaith. Bydd mynediad i'r ysgol yn ddiabynnol ar eich cytundeb chi a'ch plentyn i'r ddau ddisgwyliad uchod a bydd gofyn i chi gadarnhau hyn a darparu dau rif cyswllt priodol yn yr holiadur.



YSGOL SYR THOMAS JONES

PENTREFELIN, AMLWCH, YNYS MÔN LL68 9TH

PENNAETH: MR R. AARON BAYLEY

DIRPRWY: DR GERAINT JONES

PEN. CYN: MRS MEFYS JONES-EDWARDS, MRS ELERI FOULKES, MRS MANDY ROBERTS

RHEOLWR BUSNES: MRS MENNA OWEN

IECHYD A HYLENDID

Fe welwch yn y Pecyn Rhieni pa mor bwysig fydd y rheolau hylendid a chael patrymau glanhau trylwyr. Rydym yn gofyn i chi gymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod dillad eich plentyn yn cael eu golchi bob dydd a'ch bod chi'n sgrinio iechyd eich plentyn yn ddyddiol gan wyllo am unrhyw arwyddion o un neu fwy o'r 3 symptom isod:

- Tymheredd uchel;
- Peswch newydd, parhaus; a/neu
- Colli synnwyr blas neu arogl (anosmia).

Os yw eich plentyn neu aelod o'ch cartref yn arddangos y symptomau hyn NI DDYLAI eich plentyn fynychu'r ysgol.

CANOLFAN OFAL

Fe'ch atgoffir bydd y Canolfan Ofal YSTJ ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant bregus iawn (yn unig) ar gael drwy drefniant ymlaen llaw. Fodd bynnag, gofynnir i chi ddefnyddio'r gwasanaeth yma dim ond os yw'n wirioneddol hanfodol fel gallem sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer yr holl ddysgwyr. Ni fydd posib i ddysgwr fynychu'r Ganolfan Ofal a'r ddarpariaeth ysgol ar yr un diwrnod.

Y DYSGU

Bydd yr athrawon yn parhau i osod gwaith ar-lein yn y drefn yr ydych wedi hen arfer ag yn barod ar gyfer yr holl ddysgwyr hyd at ddiwedd y tymor. Bydd y gwaith yma'n plethu gyda'r gwaith fydd yn digwydd tra yn yr ysgol mewn dull gyfunol. (Mwy o fanylion yn y Pecyn i Rieni)

HOLIADUR DERBYN

Felly, er mwyn ein cynorthwyo i wneud ein trefniadau'n effeithiol gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r holiadur ar-lein drwy ddilyn y ddolen isod.

DOLEN O FEWN YR EBOST I RIENI A DISGYBLION

Drwy gwblhau'r holiadur byddwch yn darparu'r holl wybodaeth fydd arnom ei angen ymlaen llaw fel cadarnhad os yw eich plentyn yn bwriadu mynychu'r ysgol neu'r ganolfan ofal, unrhyw fanylion cludiant a chytundeb â'r amodau derbyn. Dylid cwblhau yr holiadur hyd yn oed os NAD YW eich plentyn yn bwriadu mynychu. Er mwyn i ni a'r Awdurdod Addysg gael y niferoedd yn gywir ar gyfer cynllunio gofynnwn i chi gwblhau'r holiadur erbyn **HANNER DYDD, Ddydd Gwener, Mehefin 19 ogydd**. Os ydych yn cael trafferth cael mynediad i'r holiadur gofynnir yn garedig i chi ffonio'r ysgol yn ystod yr oriau gwaith arferol.

Byddwn yn sicr yn cysylltu â chi eto cyn y 29ain gyda manylion pellach am drefniadau unigol eich plentyn, unrhyw addasiadau i'r cynlluniau dros amser a diweddariadau ar gyfer tymor yr Hydref. Gallech gadw'n gyfredol drwy wyllo fy flog yn rheolaidd, drwy ymweld â'n gwefan a'n dilyn ni ar Facebook.

Diolch i chi am bob dim yr ydych yn gwneud ac am eich cefnogaeth barhaus ar yr adeg ansicr hwn.

Gyda chofion cynnes iawn atoch unwaith eto,

R. Aaron Bayley
Pennaeth



YSGOL SYR THOMAS JONES

PENTREFELIN, AMLWCH, YNYS MÔN LL68 9TH

PENNAETH: MR R. AARON BAYLEY

DIRPRWY: DR GERAINT JONES

PEN. CYN: MRS MEFYS JONES-EDWARDS, MRS ELERI FOULKES, MRS MANDY ROBERTS

RHEOLWR BUSNES: MRS MENNA OWEN

Wednesday, 17th of June 2020

Dear Parents / Guardians,

YSTJ RETURN AND RESUMPTION OF LEARNING PLAN

Following a very uncertain time for all, and in line with our promise, we are pleased to announce Ysgol Syr Thomas Jones' plans to welcome all learners back to "check in, continue to learn and prepare for the summer and September" YSTJ's doors will open again from Monday 29th June for fixed periods for the remainder of the summer term. You will see in the plan that we plan to provide all learners with the opportunity to attend regularly on specific days according to their year groups. (See Parent Pack for further information)

SAFETY

We understand that some pupils and parents will be anxious about returning to school, but we can assure you that very detailed and rigorous procedures are in place to create the safest possible conditions for everyone. The national guidelines state that you do not have to send your child to school during this time. However, returning to tightly controlled conditions with significantly reduced movement of children and staff, we think it will be a great opportunity for learners to become familiar with a routine of a combination of home learning supported by face-to-face sessions at school. It looks very likely that this will be the pattern for some time into the future. Pupils will be placed in small groups with their peers and will not move around the school.

DAYS AND TIMES

To begin the re-integration gradually and carefully we have designed a flexible model from June 29th onwards. The school day will be reduced to between 9:00 am and 1:00 pm. See the Parent Pack for detailed information. In the Parent Pack you will also find detailed information about the rota for each age group for the next 4 weeks. Note that the pattern varies slightly from week to week. Our model is flexible and as you already know of us we will keep the arrangements under review and adapt as necessary. A formal review will take place at the end of week 2.

TRAVEL

The national guidelines strongly suggest that, wherever possible, parents should transport their own children to school and collect them at the end of the day avoiding sharing and using public transport. If you plan to do so we will have a Traffic Management Plan to keep track of all movements. (See questionnaire to let us know your intentions to support us in planning). If your child is normally eligible to travel on a school bus, there will be space for a certain number to transport arrangements (due to distancing rules) and a request for this should be noted in the admission questionnaire. The County Council is responsible for arranging bus transport and we will work closely with them to ensure that they receive the most up-to-date information.

EXPECTATIONS

As we operate under very carefully controlled conditions, we will demand excellent behaviour from all pupils at all times. I would expect ALL learners to respect the rules of social distancing and to follow staff instructions at ALL times. If a pupil does not fully comply with our expectations following 1 warning, we will ask you to collect them from the school. Similarly, if a child is exhibiting symptoms during the day you will be expected to be available for immediate collection. Admission to the school will depend on your agreement and your child's agreement to the above expectations and you will need to confirm this and provide two appropriate contact numbers in the questionnaire.



YSGOL SYR THOMAS JONES

PENTREFELIN, AMLWCH, YNYS MÔN LL68 9TH

PENNAETH: MR R. AARON BAYLEY

DIRPRWY: DR GERAINT JONES

PEN. CYN: MRS MEFYS JONES-EDWARDS, MRS ELERI FOULKES, MRS MANDY ROBERTS

RHEOLWR BUSNES: MRS MENNA OWEN

HEALTH AND HYGIENE

You will see in the Parent Pack how important the hygiene rules will be and having thorough cleaning patterns. We ask that you take responsibility for ensuring that your child's clothes are washed daily and that you screen your child's health daily and watch for any signs of one or more of the 3 symptoms below:

- High temperature;
- New, persistent cough; and / or
- Loss of taste or smell (anosmia).

If your child or a member of your household exhibits these symptoms your child should **NOT** attend school.

CARE CENTRE

You are reminded that the YSTJ Care Centre for children of key workers and very vulnerable children (only) will be available by prior arrangement. However, you are asked to only use this service if it is absolutely essential so that we can secure the resources necessary to cater for all learners. A learner will not be able to attend the Care Centre and school provision on the same day.

THE LEARNING

Teachers will continue to place work online in the order of the above as is already used for all learners up to the end of term. This work will blend in with the work that takes place while at school in a collective way. (More details in Parent Pack)

ADMISSION QUESTIONNAIRE

Therefore, to help us make our arrangements effective we kindly ask you to complete the questionnaire online by following the link below.

[LINK WITHIN THE EMAIL SENT TO PARENTS/GUARDIANS AND CHILDREN](#)

By completing the questionnaire, you will provide all the information we need in advance including confirmation if your child is planning to attend school or the care centre, any transportation details and the agreement on the admission conditions. The questionnaire should be completed even if your child does NOT intend to attend. In order for us and the Education Authority to get the numbers correct for planning we ask that you complete the questionnaire by MIDDAY, Friday, June 19th. If you have difficulty accessing the questionnaire, please kindly phone the school during normal working hours.

We will certainly be contacting you again before the 29th with further details of your child's individual arrangements, any adjustments to the plans over time and updates for the Autumn term. You can also keep up to date by watching my vlog regularly, by visiting our website and following us on Facebook.

I would like to thank you for everything you are doing and for your continuous support at this uncertain time.

With my warmest regards once again,

R. Aaron Bayley
Headteacher